| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 23ain Mai 2024 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 4 Archwilio Cymru. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 4 2022/23 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.

1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y Pwyllgor hwn ar yr 8fed o Chwefror 2024. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno ym Medi/Hydref 2024.